

Wrth iddynt ddatblygu

# Bwrw'r Bwced

## Adnoddau

- Bwcedi'r traeth, cynwysyddion o wahanol faint, dŵr
- Amrywiaeth o wrthrychau bach i'w taflu, marcwyr dros dro

## Cwestiynau

- P'un sydd hawsaf: cael gwrthrych i mewn i fuced sy'n agos neu fuced sydd ymhellach i ffurdd?
- Pam mae'n anos cael gwrthrych i mewn i fuced llai?
- Pa wahaniaeth sydd o ran sŵn rhwng gwrthrych sy'n glanio mewn bwced bach a gwrthrych sy'n glanio mewn bwced mawr/bwced plastig neu fuced metel?
- Pa wahaniaeth mae maint y gwrthrych yn ei wneud i'w sŵn wrth iddo lanio yn y dŵr?

## Beth am 'Chwarae i Ddysgu'?

- Gofynnwch i'r plant archwilio taflu gwahanol wrthrychau i mewn i wahanol gynwysyddion
- Gofynnwch i'r plant osod marciwr un cam oddi wrth y cynhwysydd, a thafu gwrthrych i mewn i'r cynhwysydd. Y plant fydd yn penderfynu sawl taflad llwyddiannus y mae'n rhaid eu cael cyn y gallant symud gam arall yn ôl ac ati
- Anogwch y plant i gymryd eu tro, a chofnodi eu cyflawniadau



## Geiriau allweddol

- Rheolaeth, sgiliau cydsymud, cydbwysedd
- Anelu, cywir
- Camu ymlaen â'r droed arall
- Cymryd eu tro, teg, annheg

## Cyfleoedd i:

- reoli symudiadau mawr y corff
- taflu gwrthrychau dros bellterau byr
- adnabod a defnyddio gwahanol ddarnau o offer

## Diogelwch a threfn

### Sicrhewch:

- bod yr arwyneb yn lân ac yn rhydd o rwystrau
  - bod unrhyw ddŵr a ollyngir yn cael ei sychu ar unwaith os ydych chi dan do
  - nad yw'r plant yn taflu gwrthrychau mewn modd amhriodol
- Rhowch ystod o offer ym mhob 'gardd'

## A allwch chi weld y plentyn?

- Yn meithrin rheolaeth gynyddol ar symudiadau mawr y corff?
- Yn taflu gwrthrychau'n llwyddiannus dros bellterau byr?
- Yn adnabod ac yn defnyddio gwahanol ddarnau o offer?

gan amlaf

weithiau

### Anogwch y plentyn i:

- daflu at darged mawr
- canolbwyntio ar y targed
- trafod pa wrthrychau allai fod hawsaf i'w taflu
- ymarfer sgiliau gan ddefnyddio'r Cardiau Sgiliau Technegol

### Anogwch y plentyn i:

- daflu amrywiaeth o wrthrychau
- taflu at dargedau sy'n fwyfwy anodd
- taflu o safle pellach i ffwrdd
- anelu at dargedau ar y wal neu ar lefel uwch
- trafod sut gellir gwneud y targed yn anos

### Cyfleoedd campus

- Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol: Datblygiad cymdeithasol – deall bod rheolau'n hanfodol mewn cymuned drefnus, dysgu cymryd eu tro, deall yr hyn sy'n deg ac yn annheg
- Datblygiad Creadigol: Cerddoriaeth – archwilio ffynonellau sain ac arbrofi â gwahanol ffyrdd o gynhyrchu a threfnu seiniau